**cyfarfod rhithwir GWASANAETH ADDYSG AR Y CYD - CONSORTIWM CANOLBARTH Y DE yn cael ei gynnal:**

**Dydd Mawrth, 7 Mehefin 2022 am 2pm**

Fel rydych chi'n gwybod, mae angen i 50% o aelodau'r pwyllgor fod yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn bodloni gofynion cworwm. Os nad oes modd i chi fynychu'r cyfarfod, rhowch wybod i'r Ysgrifennydd, Yula Kampouropoulou (07747485569), neu'r Cadeirydd, cyn y cyfarfod.

**AGENDA**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw, a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod Cydbwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2022 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 14)**

**3. ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd Cydbwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer Blwyddyn y Cyngor.

**4. PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-gadeirydd Cydbwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer Blwyddyn y Cyngor.

**5. CALENDR O GYFARFODYDD AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2022-2023**

Trafod y calendr o gyfarfodydd arfaethedig ar gyfer y flwyddyn 2022-2023.

**(Tudalennau 15 - 16)**

**6. CYNLLUN ARCHWILIO 2020/2021**

Derbyn adroddiad gan Archwilio Cymru sy'n amlinellu'r amserlen Archwilio ar gyfer 2021/2022.

**(Tudalennau 17 - 26)**

**7. Y SEFYLLFA AR DDIWEDD 2021-2022/DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Trafod adroddiad y Trysorydd.

**(Tudalennau 27 - 110)**

**8. ADRODDIAD DYFARNU GRANTIAU CCD 2022-2023 (GRANT GWELLA YSGOLION Y CONSORTIA RHANBARTHOL)**

Trafod adroddiad gan y Dirprwy Reolwr-Gyfarwyddwr.

**(Tudalennau 111 - 180)**

**9. ADRODDIAD DYFARNU GRANTIAU CCD 2022-2023 (SIARTER IAITH)**

Trafod adroddiad gan y Dirprwy Reolwr-Gyfarwyddwr.

**(Tudalennau 181 - 212)**

**10. CYNLLUN BUSNES DRAFFT CONSORTIWM CANOLBARTH Y DE, 2022-25**

Derbyn adroddiad y Dirprwy Reolwr-Gyfarwyddwr ynghylch cadarnhau Cynllun Busnes, 2022-2025.

**(Tudalennau 213 - 256)**

**11. ADRODDIAD (I AELODAU) - GWEITHDY CCD**

Derbyn adroddiad gan y Rheolwr-Gyfarwyddwr.

**(Tudalennau 257 - 258)**

12. **GWAHARDD AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD**

Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:
“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

13. **ADRODDIAD CRYNO - CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH 2021-22**

Trafod adroddiad gan y Dirprwy Reolwr-Gyfarwyddwr.

**(Tudalennau 259 - 264)**

14. **MATERION BRYS**

Trafod unrhyw eitemau sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**At**: Pob Aelod o'r Gwasanaeth Addysg ar y Cyd - Consortiwm Canolbarth y De